Beibl i Blant
yn cyflwyno

Iesu'n rhoi bwyd i 5000 o bobl



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Ruth Klassen

Stori 51 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Roedd llawer o arweinwyr crefyddol (oedd yn cael eu galw yn Phariseaid) yn dweud celwydd am Iesu. Roedd rhai am ei ladd hyd yn oed.



1

Doedden nhw ddim yn credu bod Iesu yn Fab Duw er ei fod yn dangos fod hynny'n wir wrth wneud gwyrthiau.

2

Un diwrnod, croesodd Iesu i ochr draw Llyn Galilea. Efallai ei fod yn chwilio am dawelwch oherwydd y tyrfaoedd mawr oedd yn ei ddilyn.



3

Ond daeth y bobl o hyd iddo yn fuan iawn. Roedden nhw'n gwybod fod Iesu'n gwneud gwyrthiau mawr. Roedden nhw am fod gydag e.



4

Aeth Iesu â'r disgyblion i ben mynydd unig a dechrau eu dysgu. Daeth mwy a mwy o bobl ato. Cyn hir roedd hi'n amser swper. Mae'n siwr fod pawb eisiau bwyd.



5

Edrychodd Iesu ar y dyrfa a gofyn i Philip, "Ble dyn ni'n mynd i brynu bwyd i bawb?" Doedd dim siop yn agos. Beth oedd Iesu'n mynd i'w wneud?



6

"Byddai angen ffortiwn i brynu digon o fwyd i bawb," atebodd Philip. Doedd dim llawer o arian gan Iesu a'i ddisgyblion.



7



Dywedodd Andreas, disgybl arall a brawd Simon Pedr, "Mae bachgen yma sydd â phum torth haidd a dau bysgodyn bach ganddo …"

8

"… ond dydy hynny fawr o werth hefo cymaint o bobl." Doedd Andreas ddim yn deall sut allai cinio'r bachgen bach fwydo cymaint o bobl, hyd yn oed os oedd e'n fodlon rhoi ei ginio i Iesu.



9

Dywedodd Iesu, "Gwnewch i'r bobl eistedd." Felly eisteddodd y dynion, tua pum mil ohonyn nhw. Meddyliwch! PUM MIL! A doedden nhw ddim wedi cyfri'r merched a'r plant oedd yno.

10

Cymerodd Iesu y torthau a'r pysgod. Mae'n rhaid bod y bachgen bach yn trystio Iesu. Doedd e ddim yn gwybod pam fod Iesu angen ei ginio, na beth oedd Iesu'n mynd i wneud.

11

Oedd e'n meddwl "Heb fy nghinio, bydd gen i ddim byd i'w fwyta"? Ond rhoddodd y bwyd i Iesu beth bynnag.



12

Yna, dywedodd Iesu weddi yn diolch i Dduw. Diolch am bum torth a dau bysgodyn? Ie! Diolchodd Iesu i Dduw a gofynnodd iddo fendithio'r bwyd.

13

Ar ôl gweddïo, dyma Iesu'n torri'r bara a'r pysgod a gofyn i'r disgyblion rannu'r bwyd. Dyna pryd sylweddolodd y bobl fod Iesu wedi gwneud gwyrth. Dyma bawb yn bwyta llond eu boliau. Ond roedd mwy ar ôl!



14

Ar ôl i bawb fwyta, roedd bwyd yn weddill. "Casglwch y tameidiau sydd dros ben. Peidiwch gwastraffu dim," dywedodd Iesu wrth y disgyblion. Dyma nhw'n llenwi deuddeg basged gyda'r tameidiau o'r pum torth haidd oedd heb eu bwyta.



15

Y diwrnod hwnnw, rhoddodd Iesu fwyd i dros 5000 o bobl wrth ddefnyddio cinio bachgen bach. Dro arall, rhoddodd fwyd i dros 4000 o bobl gyda saith torth ac ychydig o bysgod.



16

Pan welodd y bobl yr arwyddion hyn, doedden nhw ddim yn flin fel y Phariseaid. Roedden nhw'n dweud, "Mae'n rhaid mai hwn ydy'r Proffwyd sydd i ddod i'r byd."



17

Roedden nhw'n gwybod mai Iesu oedd yr Achubydd roedd Duw wedi ei addo iddyn nhw yn yr ysgrifau sanctaidd.



18

Iesu'n rhoi bwyd i 5000 o bobl

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Ioan 6

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!